Cyfadran Gofal / Care Directorate
(Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Gwasanaethau Darparu)
(Social Services, Housing and Provider Services)
Cyfarwyddwr Strategol / Strategic Director – D P Lewis

Gofynnwch am/Ask for: D P Lewis
☎(01286) 679468
(01286) 679071

Ein Cyf / Our Ref: DPL/NP
Eich Cyf / Your Ref:

Mr Roger Chaffey
Clerc – Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

27/10/05

Annwyl Mr Chaffey

Ail Strwythuro'r Heddlu

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 28 Medi. Nodir fod y sylwadau a wneir, oherwydd yr amserlen dynn i ymateb heb dderbyn sêl bendith y Cyngor. Fe'i hadroddir i Fwrdd y Cyngor ar 15 Tachwedd a phetai unrhyw newid neu sylwadau pellach mi gysylltaf â chwi eto.

I ymateb i'r ddogfen hoffwn wneud y sylwadau canlynol:-

a) teimlir nad oes gwybodaeth ddigonol wedi'i gyflwyno i wir argyhoeddi yr angen i newid.

b) os yw'r angen i newid yn cael ei dderbyn rhoddir ffafriaeth i sefydlu heddlu i Gymru yn hytrach nag unrhyw opsiwn fyddai yn uno unrhyw un o heddluoedd presennol Cymru gyda Heddluoedd o Loegr.

c) ynghlwm i'r awgrym o heddlu i Gymru nodwyd y pwyntiau canlynol:-

   i) pryder y byddai adnoddau yn symud allan o Ogledd Cymru i ardaloedd y de.
   ii) y dymuniad i brif swyddfa'r heddlu newydd gael ei lleoli tu allan i Gaerdydd.
   iii) y dymuniad i weld strwythur a phresenoldeb rhanbarthol Gogledd Cymru amlwg gan sicrhau dim lleihad perfformiad yn lleol.

ch) yn ychwanegol i'r uchod mi fyddai angen sicrhau atebolrwydd clir i heddlu traws-Gymru. Mae gan y Cyngor gynrychiolwyr ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a disgwylir i Lywodraeth Leol gael cynrychiolaeth ddigonol i sicrhau atebolrwydd ar gorff llywodraethu newydd.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.gov.uk

d) mae'r ddogfen ymgynghorol yn datgan nad oes bwriad newid trefniadau ar lefel yr Unedau Rheolaethol Lleol (Basic Command Unit) ac felly cymerir nad oes newid hefyd i drefniadau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Yr eiddoch yn gywir

Cyfarwyddwr Strategol - Gofal